

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

DYDD IAU, 27AIN MEDI, 2018

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd D. Price [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:

L.R. Bowen, K.V. Broom, I.W. Davies, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas a D.T. Williams

Hefyd yn bresennol:

Mr J. Davies – Rhiant Lywodraethwr [Ardal Llanelli]
Mrs M. Jones – Rhiant Lywodraethwr [Ardal Dinefwr]
Mrs V. Kenny – Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Mrs J. Voyle-Williams – Cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

Mr S. Davies - Pennaeth Mynediad I Addysg
Mr A. Morgan - Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Mr A. Rees - Pennaeth y Cwricwlwm a Lles
Ms F. Lewis - Rheolwr Gwasanaeth
Ms E. Forsythe - Prif Gynghorydd Her
Mr J. Buck - Performance & Information Officer
Mrs M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.30 p.m.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd E.G. Thomas, a oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor mewn cynhadledd, a Mrs G. Cornock Evans (Rhiant-lywodraethwr).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drasig Bradley John ac estynnodd, ar ran y Pwyllgor, ei gydymdeimlad dwysaf â theulu a ffrindiau Bradley ac â staff a disgyblion Ysgol Sant Ioan Llwyd. Diolchwyd hefyd i staff yr Adran Addysg am eu cymorth i bawb ar yr adeg anodd hon.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Cafwyd y datganiadau canlynol o fuddiant personol:-

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
G. Jones	4 – Adroddiad Monitro Perfformiad – Chwarter 1	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg.
G. Jones	5 - Canlyniadau Arholiadau ac Aseidiadau Athrawon (Amodol) a Data Presenoldeb yn yr Ysgolion (Amodol)	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg.

G. Jones	7 - Cyllid Fformiwla i Ysgolion	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg.
----------	---------------------------------	--

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD - CWARTER 1 - 1AF EBRILL HYD 30AIN MEHEFIN 2018

[NODER: Roedd y Cynghorydd G. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2018 (Chwarter 1), a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed gogyfer â'r camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol Newydd ar gyfer 2018-23 i ddarparu'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor, dyddiedig 30 Mehefin, 2018.

Cyflwynwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder o ran y 27 mesur a nodwyd yn yr adroddiad, gan nad yw 20 ohonynt ar waith neu nad yw data'n cael ei gasglu ar gyfer chwarter 1 na chwarter 2. O ran y 67 o gamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith yn unol â'r targed yn ôl yr adroddiad, nodwyd nad yw dyddiadau'r targed yn dechrau tan 2019/20. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod y term 'yn unol â'r targed' yn un hanesyddol a'r hyn sy'n cael ei ddweud yw nad yw'r swyddogion yn rhagweld y bydd unrhyw heriau o ran cyrraedd y targedau mewn perthynas â pherfformiad yn Chwarter 1;
- Mynegwyd pryder ynghylch fformat yr adroddiad oherwydd ceir thema 11 a 13 rhwng thema 1 a 2. Cytunodd y swyddogion i ystyried y fformat wrth lunio adroddiadau yn y dyfodol;
- O ran y ganran o blant sydd wedi'u hailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gofynnwyd i'r swyddogion sut y mae'r targed yn cael ei bennu. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai targed cenedlaethol yw hwn ac fe'i defnyddir fel cymharydd rhwng Awdurdodau Cymru;
- O ran yr ymgyrch i ddatblygu'r Gymraeg ym mhob un o'n gwasanaethau addysg, gofynnwyd i'r swyddogion am y sesiynau gweithdy ac a yw rhieni a phlant unigol yn cael eu targedu. Esboniodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant mai nod y gweithdai oedd rhannu'r weledigaeth yn ddarnau. Yn anffodus, ni ddaeth llawer o bobl a'r gobaith oedd cynnal y gweithdy eto yng nghyfarfod nesaf y Pennaethiaid Cynradd ac Uwchradd. Ychwanegodd, o ran cynnwys rhieni, ei fod yn siarad â rhieni gyda'r Rheolwr Datblygu'r Gymraeg o'r Awdurdod.
- Gofynnir i ysgolion annog rhieni i ddewis addysg ddwyieithog ar gyfer eu plant a gofynnwyd i'r swyddogion am yr hyn sy'n cael ei wneud o ran argyhoeddi'r rhieni hynny sydd wedi penderfynu yn erbyn addysg ddwyieithog. Esboniodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant y ceir yr holl wybodaeth angenrheidiol ym mhrosbectws yr ysgol a'r llyfryn Gwybodaeth i Rieni sy'n cael ei anfon at rieni pob plentyn sydd ar fin dechrau'r ysgol;

- Cyfeiriwyd at y pryderon blaenorol a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch Modelau Buddsoddi Cydfuddiannol a chwmnïau preifat sy'n gwneud elw o addysg a gofynnwyd i'r swyddogion am y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y Pennaeth Mynediad i Addysg wrth y Pwyllgor fod Awdurdodau Lleol eraill hefyd yn rhannu'r pryderon a godwyd. Mae swyddogion yn aros am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, ac ar ôl hyn bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor;
- Mewn perthynas â phrosiectau moderneiddio arfaethedig yn Ysgol Rhys Prichard, gofynnwyd i'r swyddogion a fydd y dalgylchoedd yn ardal Dinefwr yn cael eu hadolygu. Cytunodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod angen adolygu'r dalgylchoedd gan nad ydynt wedi'u hadolygu ers 2010 oherwydd diffyg adnoddau. Fodd bynnag, amlinellodd mai'r cwestiwn hanfodol y mae angen rhoi sylw iddo yw a oes angen dalgylchoedd arnom, ac roedd wrthi'n ystyried yr opsiwn hwn ac yn edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud gan Awdurdodau Lleol eraill;
- Cyfeiriwyd at y digwyddiad trasig diweddar yn Ysgol Sant Ioan Llwyd ac at ddwy farwolaeth debyg a chynamserol yn y sir, a gofynnwyd i'r swyddogion a ydynt yn fodlon bod iechyd meddwl a chorfforol yn cael digon o flaenoriaeth gan yr Awdurdod. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg sicrwydd i'r Pwyllgor fod hyn yn flaenoriaeth, ond ni all un corff fynd i'r afael â'r mater hwn ar ei ben ei hun, ac roedd dull amlasiantaeth yn hanfodol. Pwysleisiodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant pa mor bwysig yw sicrhau bod ysgolion yn lleoedd croesawgar, diogel ac empathetig. Mae diogelu a llesiant ein plant yn hanfodol bwysig ac mae llesiant, gofal, cymorth ac arweiniad yn rhan o'r pecyn hyfforddiant a gynigir i'r holl ysgolion.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

5. CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL (HEB EU CADARNHAU), ASESIADAU ATHRAWON A DATA PHRESENOLDEB YSGOLION

[NODER: Roedd y Cynghorydd G. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg ar ddata ynghylch perfformiad Ysgolion Sir Gaerfyrddin. Nododd y Pwyllgor fod y data a ddarparwyd mewn perthynas â CA4/5 yn parhau i fod yn amodol ar yr adeg hon.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Dywedwyd y dylai cynnydd fod yn gyson o flwyddyn i flwyddyn a gofynnwyd i'r swyddogion pam nad yw hyn wedi digwydd a pham nad ydym yn gweld cynnydd mewn perthynas ag absenoldeb staff. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg wrth y Pwyllgor mai'r gobaith yw y bydd y cynllun peilot athrawon cyflenwi yn ardal Llanelli yn rhoi canlyniadau cadarnhaol o ran hynny. Esboniodd y Prif Ymgynghorydd Her fod yna Swyddogion Cymorth mewn ysgolion i helpu i leihau lefelau straen. Mae Ymgynghorwyr Her yn canolbwyntio ar anghenion penodol yr ysgol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer 2017/18 a luniwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac a oedd yn rhoi manylion am waith a pherfformiad pum rhanbarth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Cyflwynwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth a gofynnwyd i'r swyddogion pam mae hyn wedi digwydd. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth y gallai'r cynnydd fod yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth well oherwydd bod rhagor o wybodaeth ar gael yn ogystal â mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael;
- O ran y cyllid ychwanegol a ddyrannir i sefydliadau gwirfoddol gan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i'r swyddogion a fyddai dyrannu'r arian i'r Rhanbarth wedi bod yn well. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth, er y byddai'r Rhanbarth wedi croesawu'r cyllid, fod yna swm cyfyngedig o arian ar gael ac mai'r farn oedd y byddai'n well datblygu pethau'n genedlaethol er mwyn i bawb elwa.
- Gofynnwyd i'r swyddogion pa mor drylwyr yw'r broses o sicrhau bod plant yn cael eu mabwysiadu gan y bobl iawn. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth fod adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng dechrau a diwedd y broses fabwysiadu ffurfiol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

7. FFORMIWLA ARIANNU AR GYFER YSGOLION

[NODER: Roedd y Cyngorydd G. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg ar y trefniadau presennol ar gyfer cyllido'n hysgolion yn unol ag arferion a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion a gynhelir yn dod o gyllideb llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae ysgolion hefyd yn derbyn grantiau penodol, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, drwy ddefnyddio fformiwla gytunedig. Mae prif ffynonellau cyllid eraill ar gyfer cyllidebau Awdurdodau Lleol yn cynnwys y dreth gyngor, incwm o ardrethi annomestig a grantiau penodol.

Mae'r swm y mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ei gael drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y Setliad Llywodraeth Leol. Mae'r cyllid hwn heb ei neilltuo, felly ni phennir y swm o arian o'r Grant Cynnal Refeniw y dylai Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio i ddarparu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Asesiad Dangosyddion ar

gyfer pob maes gwasanaeth yn y setliad. Mae hwn yn gyfrifiad cenedlaethol o'r arian y mae angen i bob Cyngor ei wario i ddarparu'r gwasanaeth sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad targedau gwariant yw'r Aseiad Dangosyddion, a phenderfyniad pob Awdurdod Lleol yw pennu ei flaenoriaethau o ran gwario o'i ddyraniad cyllid cyffredinol a'r hyn y gall godi o'r dreth gyngor.

Ar ôl cael eu dyraniadau setlo gan Lywodraeth Cymru, bydd Awdurdodau Lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer y meysydd gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys addysg, yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae'r Gyllideb Ysgolion yn cynnwys gwariant sydd â'r nod uniongyrchol o gefnogi ysgolion. Mae'n cynnwys gwariant ar wasanaethau y mae'n bosibl bod yr Awdurdod Lleol yn cadw cyllideb yn ganolog ar eu cyfer, megis cyllid ADY arall, prydau ysgol a llaeth.

Caiff swm y gwariant a gedwir yn ganolog ei ddiddymu o'r Gyllideb Ysgolion ac mae'r gweddill yn mynd tuag at y Cyllidebau Ysgolion Unigol h.y. cyllid a ddyrannir i ysgolion.

PENDERFYNWYD

7.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

7.2 trefnu i gynnal sesiwn weithdy ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, ynghylch Cyllid Fformiwla i Ysgolion a'r cyllid £0.5 miliwn ar gyfer y Gronfa Datblygu Ysgolion

8. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Nododd y Pwyllgor y rhesymau dros beidio â chyflwyno'r adroddiad canlynol:-

- cyllid £0.5m ar gyfer y Gronfa Datblygu Ysgolion

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried rhestr o'r eitemau sydd i ddod a chytunwyd y dylid cyflwyno'r eitemau yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 26 Tachwedd 2018.

10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

11.1. 14EG MAI, 2018;

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018 gan eu bod yn gywir.

11.2. 5ED GORFFENAF, 2018.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD